# Glanhau, cynnal a chadw a gwarchod lloriau caled

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â glanhau, cynnal a chadw a gwarchod lloriau rhannol galed gan ddefnyddio cyfarpar â llaw, fel brwshys, mopiau a sugnwyr llwch. Mae ar gyfer staff sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol ar y maes gwaith hwn ac sy’n ei gyflawni’n rheolaidd.

Pan fyddwch chi wedi cwblhau’r safon hon, byddwch chi’n gallu dangos eich dealltwriaeth o’r canlynol, a’ch gallu i:
• Lanhau, cynnal a chadw a gwarchod lloriau caled

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Paratoi eich ardal weithio a'ch cyfarpar fel y gallwch wneud y gwaith yn effeithlon, yn gywir ac yn ddiogel
2. Gwirio bod lefel eich hylendid personol yn cyrraedd safonau'r sefydliad a'i bod yn cael ei chynnal trwy gydol y broses lanhau
3. Gwirio bod y cyfarpar diogelu personol gofynnol ar gael i'w ddefnyddio a'i fod yn cael ei ddefnyddio wrth lanhau lloriau
4. Nodi'r cyfarpar/ardal weithio gywir ar gyfer y driniaeth a phenderfynu ar y driniaeth fwyaf effeithiol a darbodus i'w darparu
5. Nodi a rhoi gwybod am arwynebau sydd wedi'u difrodi neu sy'n dirywio, a/neu arwynebau y gall fod angen gwaith adfer arnynt
6. Chwilio am unrhyw ffactorau a fydd yn effeithio ar sut rydych chi'n glanhau'r llawr, a'u nodi
7. Dilyn unrhyw safonau y mae angen eu cymhwyso i'r gwaith o ffynonellau heblaw am gyfarwyddiadau eich goruchwylydd
8. Gwirio bod digon o awyru yn yr ardal weithio fel eich bod yn gysurus wrth lanhau ac i gynorthwyo â'r broses sychu
9. Dewis cyfarpar a chyfryngau glanhau sy'n briodol ar gyfer y llawr, faint o fudreddi sydd wedi'i sathru arno a'r araen warchodol
10. Clirio unrhyw falurion mawr â llaw yn gyntaf
11. Gwaredu'r llwch a'r malurion rhydd yn ofalus ac yn ddiogel, heb wneud i'r llwch ledaenu
12. Rhoi gwybod i'r person cyfrifol am unrhyw hylifau'r corff sydd wedi gollwng neu ollyngiadau eraill nad ydych yn eu hadnabod, a dim ond eu clirio pan gewch ganiatâd i wneud
13. Dewis dull clirio gollyngiad sy'n gywir ar gyfer y llawr a'r math o ollyngiad a faint ohono sydd
14. Meddalu budreddi sydd wedi'i sathru a staeniau cyn ceisio cael gwared arnynt
15. Glanhau ardal brawf yn yr ardal lle y bydd pobl yn lleiaf tebygol o sylwi ar farciau
16. Ychwanegu'r driniaeth yn ddiogel, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a heb orwlychu na difrodi'r arwyneb
17. Rhoi gwybod am unrhyw staeniau na allwch gael gwared arnynt
18. Gadael y llawr yn rhydd rhag budreddi sydd wedi'i sathru iddo ac araen

warchodol, wedi'i niwtraleiddio, yn sych a heb olion
19. Rhoi'r ardal yn ôl fel y'i cawsoch hi
20. Gwaredu unrhyw driniaethau glanhau heb eu defnyddio a chynhyrchion gwastraff yn unol â canllawiau'r gweithle a chanllawiau amgylcheddol a chynaliadwyedd
21. Dewis araen amddiffynnol a chyfarpar sy'n gywir ar gyfer arwyneb y llawr
22. Ychwanegu'r nifer ofynnol o araenau gwarchodol yn llyfn ac yn systematig, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
23. Gadael y llawr yn sych, gyda gorffeniad llyfn ac yn rhydd rhag llwch
24. Gwaredu unrhyw ddeunyddiau heb eu defnyddio yn gywir a rhoi popeth yn ôl yn y lle cywir

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Enghreifftiau o loriau caled a rhannol galed
2. Sut i baratoi ar gyfer glanhau lloriau caled
3. Lefel yr hylendid personol sy'n ofynnol ar gyfer yr ardal lle'r ydych chi'n gweithio, pam mae'n bwysig cynnal hylendid personol a pham mae angen tynnu eitemau personol a ble ddylent gael eu storio wrth lanhau
4. Cyfarwyddiadau iechyd a diogelwch sefydliadol a pham dylid gwirio'r rhain yn erbyn gweithdrefnau'r gweithle
5. Pam mae gwiriadau a chyfyngiadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar glanhau dwfn, pam mae'n rhaid cadw at y rhain a beth allai ddigwydd os nad ydych chi'n cymryd y camau diogelwch cywir
6. Beth yw ystyr codau lliw a pham mae'n bwysig
7. Y ffactorau a fydd yn effeithio ar sut byddwch chi'n glanhau'r llawr
8. Pam dylech chi glirio malurion mawr â llaw yn gyntaf
9. Technegau trin diogel ar gyfer malurion mawr
10. Gwahanol ddulliau o waredu llwch a malurion rhydd, sut i ddewis y dull cywir a'r cynhwysydd cywir i roi'r llwch a'r malurion ynddo
11. Sut i adnabod gwahanol fathau o ollyngiadau / hylifau'r corff, pam mae'n bwysig rhoi gwybod am unrhyw ollyngiadau / hylifau'r corff nad ydych yn eu hadnabod a peidio â chlirio'r rhain hyd nes cewch gyfarwyddiadau ar sut i wneud hynny'n ddiogel
12. Gwahanol ddulliau o waredu gollyngiadau a sut i ddewis y dull cywir
13. Y dulliau triniaeth sydd ar gael a'r mwyaf effeithiol a darbodus i'w defnyddio
14. Sut i nodi'r man mwyaf priodol i gynnal prawf glanhau a pham ddylai hyn gael ei wneud cyn ychwanegu triniaethau
15. Yr amgylchiadau pryd y dylai cyfarpar ac arwynebau gael eu trin ymlaen llaw
16. Pam dylai triniaethau gael eu rhoi ar arwynebau yn wastad ac effeithiau peidio â gwneud hynny
17. Pam mae'n bwysig rhoi gwybod am unrhyw staeniau na allwch gael gwared arnynt
18. Pam mae'n bwysig cael gwared ar hylifau glanhau sy'n weddill yn gywir a sut i wneud hynny
19. Pam mae'n rhaid gadael y llawr yn rhydd rhag budreddi sydd wedi'i sathru iddo ac araenau gwarchodol a beth allai ddigwydd os na wneir hynny

20. Pwysigrwydd gadael y llawr wedi'i niwtraleiddio a beth allai ddigwydd os na fydd hyn yn cael ei wneud
21. Amrywiaeth o araenau gwarchodol sydd ar gael, sut i ddewis yr un sy'n gywir i arwyneb y llawr a sut i benderfynu ar nifer gywir yr araenau gwarchodol
22. Sut i ychwanegu'r araen yn llyfn ac yn systematig, a pham
23. Sut i fwrneisio'r llawr yn systematig, gan gael y sglein gofynnol
24. Sut i gael gwared ar araenau gwarchodol heb eu defnyddio yn gywir
25. Pwysigrwydd rhoi pethau yn eu hôl fel y'u cawsoch chi nhw

Glanhau, cynnal a chadw a gwarchod lloriau caled

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | People 1st |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | People 1st |
| **RCU gwreiddiol** | PPL2HK4 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaethydd ystafell (cadw tŷ), Morwyn ystafell |
| **Cyfres/Set** | Lletygarwch – Cadw Tŷ a Derbynfa Blaen Tŷ |
| **Geiriau Allweddol** | glanhau, cynnal a chadw, gwarchod, lloriau caled |